

**Y Fonesig Rosemary Butler AC**  
**Y Llywydd**

15 Rhagfyr 2015

Annwyl Lywydd

Diolch ichi am y cyfle i ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Busnes ar ei adroddiad etifeddiaeth. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried cwestiynau'r ymgynghoriad a hoffai wneud y pwyntiau canlynol.

**Cylch gorchwyl y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**

Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn eang iawn, yn cwmpasu nifer fawr o feysydd polisi arwyddocaol, gan gynnwys tai a digartrefedd, llywodraeth leol, gwella gwasanaethau cyhoeddus, cydlyniant cymunedol, diwylliant, treftadaeth, chwaraeon, yr iaith Gymraeg a darlledu. Golyga hyn, dros y pum mlynedd diwethaf, bod y Pwyllgor wedi bod yn gyfrifol am graffu ar hyd at chwech o Weinidogion ar unrhyw adeg.

Hefyd, bu'n gyfrifol am ystyried 10 o filiau; oddeutu 30% o'r ddeddfwriaeth sylfaenol a wnaed yn ystod y Cynulliad hwn. Roedd goblygiadau yn hyn o beth o ran gallu'r Pwyllgor i gynnal ymchwiliadau polisi.

Rydym o'r farn y dylid rhoi ystyriaeth i rannu cylch gwaith y Pwyllgor, ac y byddai hyn yn hwyluso gwell gwaith craffu ar bolisi Llywodraeth Cymru a deddfwriaeth. Gwerthfawrogwn y bydd goblygiadau o ran llwyth gwaith yr Aelodau i greu rhagor o bwyllgorau.



## Slotiau cyfarfod wythnosol

Rydym yn cydnabod y pwysau o ran amserlennu sydd ar gyfer trefnu cyfarfodydd wythnosol ar gyfer pob un o bwyllgorau'r Cynulliad. I liniaru hyn, credwn y gellid gwneud mwy o ddefnydd o'r slot bore Mawrth ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor. Nodwn fod hyn wedi'i wneud eisoes i raddau cyfyngedig.

## Ystyried biliau – Cyfnod Cyflwyno Adroddiad a phenderfyniadau ariannol

Fel yr amlinellir uchod, rydym wedi cael cryn brofiad o graffu ar filiau dros gyfnod y Cynulliad hwn.

Rydym yn cefnogi barn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, fel y mynegwyd yn ei adroddiad *Deddfu yng Nghymru*, y byddai Cyfnod Adrodd ar gyfer pob bil yn ychwanegu gwerth at y broses graffu ac yn arwain at welliannau yn ansawdd y gyfraith a gynhyrchir gan y Cynulliad. Rydym yn cytuno y dylai Cyfnod Adrodd fod yn orfodol ar gyfer pob Bil, oni bai bod y Cynulliad yn penderfynu fel arall ar sail mwyafrif o ddwy ran o dair.

Ymhellach, credwn y dylid diwygio'r Rheolau Sefydlog er mwyn galluogi Aelod sy'n gyfrifol am Fil i wneud y cynnig ar gyfer penderfyniad ariannol ar y bil hwnnw. Ar hyn o bryd, mewn perthynas â Biliau Aelodau, mae hwn yn fater a gadwyd yn ôl i Lywodraeth Cymru. Byddai cytuno ar y cynnig, neu fel arall, yn parhau'n fater ar gyfer y Cynulliad.

Gobeithio bod hyn yn gyfraniad defnyddiol o ran eich ystyriaethau.

Yn gywir



**Christine Chapman AC**

Cadeirydd

